

Cofnodion **BWRDD YR YMDDIRIEDOLWYR** a gynhaliwyd ar 13 Mawrth 2014 yn
Ystafell Fwyta'r Castell, Sain Ffagan Amgueddfa Werin Cymru

Nodiadau	Gweithredu
<p>YN BRESENNOL: Elisabeth Elias, Llywydd, (yn y Gadair); Haydn Edwards, Is-lywydd; Peter Morgan, Trysorydd; Carole-Anne Davies; Christina Macaulay; David Vokes; Gareth Williams; Gareth Wyn Jones; Robert Pickard; Miriam Griffiths; Tony Atkins; Victoria Provis; David Anderson, Cyfarwyddwr Cyffredinol; Mark Richards, Dirprwy Gyfarwyddwr Cyffredinol/Cyfarwyddwr Gweithredu (o eitem 7 ymlaen); Neil Wicks, Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau Corfforaethol; Peter Wakelin, Cyfarwyddwr Casgliadau ac Ymchwil; Janice Lane, Cyfarwyddwr Addysg, Arddangosfeydd a'r Cyfryngau Digidol; Judith Ingram, Pennaeth Polisi a Chynllunio; ac Elaine Cabuts, Ysgrifennydd yr Amgueddfa.</p>	
<p>1 CROESO AC YMDDIHEURIADAU</p> <p>1.1 Croesawyd yr aelodau i'r cyfarfod. Croesawyd Peter Wakelin i'w gyfarfod cyntaf o Fwrdd yr Ymddiriedolwyr. Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Glenda Jones; Jonathan Osmond; Keshav Singhal; a Lesley-Anne Kerr (CyMAL).</p>	
<p>Yn Sesiwn Gaeddig y cyfarfod, bu'r Bwrdd yn trafod a chael eu briffio am recriwtio ymddiriedolwyr, taith gelf UDA, cynllunio ariannol, y Rhaglen Newid, y cyfarfod chwe misol gyda'r Gweinidog, strategaeth ddigidol yr Amgueddfa, adroddiadau ar rôl diwylliant o ran trechu tlodi yng Nghymru ac addysg ym maes y Celfyddydau yng Nghymru, a Llyfrgell Genedlaethol Cymru.</p> <p><i>Yna agorwyd y cyfarfod i'r cyhoedd ond nid oedd neb o'r cyhoedd yn bresennol.</i></p>	
<p>2 COFNODION</p> <p>5.1 <u>Penderfynwyd:</u> Cymeradwyo Cofnodion cyfarfod y Bwrdd a gynhaliwyd ar 28 Tachwedd 2013.</p>	
<p>3 MATERION YN CODI</p> <p>3.1 Statudau</p> <p>3.1.1 <u>Adroddwyd:</u> Bod Ysgrifennydd yr Amgueddfa, ar ran y Dirprwy Gyfarwyddwr Cyffredinol/Cyfarwyddwr Gweithredu, yn cyflwyno'r statudau diwygiedig i'r Bwrdd, er mwyn cofnodi'n ffurfiol eu bod wedi'u derbyn.</p>	
<p>4 STRATEGAETH ARDDANGOSFEYDD DROS DRO AC</p>	

Nodiadau	Gweithredu
AILARDDANGOS YN YR ORIELAU	
<p>4.1 <u>Derbyniwyd</u>: Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Addysg, Arddangosfeydd a Chyfryngau Digidol.</p>	
<p>4.2 <u>Adroddwyd</u>: Bod y Bwrdd wedi nodi'r cyd-destun ar gyfer datblygu'r strategaeth, a'r gwaith ymgynghori mewnol a'r gwaith meincnodi allanol a oedd wedi llywio ei ddatblygiad. Roedd y gwaith ymchwil presennol ar gynulleidfaoedd wedi'i adolygu hefyd. Nododd aelodau bwysigrwydd strategol y strategaeth, ei datblygiad a'r broses o'i rhoi ar waith yn ystod y cyfnod pontio. Nodwyd rôl casgliadau'r Amgueddfa hefyd sydd ag arwyddocâd rhyngwladol a'r cyfleoedd yr oeddynt yn eu cynnig i godi proffil yr Amgueddfa. Roedd argraffiadau'r gynulleidfa yn allweddol, a nodwyd yr heriau y mae'r Amgueddfa yn eu hwynebu. Datblygwyd y strategaeth o fewn yr adnoddau presennol, a oedd yn dangos gwerth cydweithio a'r angen am hynny. Roedd y strategaeth yn canolbwyntio ar ganlyniadau ac yn ystyried yr arddangosfeydd dros dro ac ailarddangos yn yr orielau dros gyfnod o ddeng mlynedd.</p>	
<p>4.3 Nododd yr aelodau'r diffyg gofod mewn lleoliadau yng Nghymru ar gyfer arddangosfeydd mawr dros dro. Yn hanesyddol, roedd yr Amgueddfa wedi defnyddio gofod oriel <i>Gwreiddiau</i> yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd. Byddai pob un o ofodau cyhoeddus Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd yn cael eu hystyried fel rhan o'r gofodau a fyddai ar gael ar gyfer arddangosfeydd dros dro yn y lleoliad hwn, yn yr un ffordd ag yr oedd gwaith Artes Mundi wedi'i osod mewn nifer o orielau gwahanol yn yr Amgueddfa Gelf Genedlaethol. Nododd yr aelodau yr amrywiaeth staff o bob rhan o'r Amgueddfa a oedd wedi cyfrannu at y strategaeth, ac y byddent yn parhau i lywio'r dasg o roi'r strategaeth ar waith. Byddai grŵp a fforwm Arddangosfeydd ac Arddangosiadau, yn cynnwys amrywiaeth o staff o bob rhan o'r sefydliad, yn effeithio'n gadarnhaol ar gyfathrebu mewnol.</p>	
<p>4.4 Nododd yr aelodau y gwerth o gynnwys amrywiaeth eang o gyfryngau a llunwyr barn fel rhan o'r gwerthusiad o arddangosfeydd ac arddangosiadau. Roedd Grŵp Ymgysylltu â'r Cyhoedd Hanes Cymru yn ceisio pwyso a mesur dealltwriaeth y cyhoedd a'r graddau y maent yn ymgysylltu â hanes Cymru, er mwyn sicrhau camau gweithredu ar y cyd ymysg aelodau'r grŵp (Llyfrgell Genedlaethol Cymru, y Comisiwn Brenhinol, yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, CyMAL, Cadw a'r Amgueddfa). Mae'r broses o fapio ein partneriaethau ar draws Cymru wedi ein galluogi i ddangos i'r Gweinidog a rhanddeiliaid eraill hyd a lled ein cyrhaeddiad. Bydd yr Amgueddfa'n ystyried cwmpas daearyddol ein gwaith partneriaeth wrth ailystyried ein gweledigaeth. Y ffordd fwyaf cadarn o gefnogi arddangosfeydd mewn lleoliadau eraill oedd datblygu cysylltiadau â phartneriaid lleol a rhanbarthol. Mae safleoedd yr Amgueddfa wedi ymateb yn gadarnhaol i'r gwaith o ddatblygu'r strategaeth, ac mae'r Amgueddfa'n cymryd golwg hirdymor ar y posibilïadau creu incwm mewn perthynas ag arddangosfeydd mawr dros</p>	

Nodiadau	Gweithredu
<p>dro. Nodwyd y posibilïadau ar gyfer nawdd corfforaethol. Byddai'r Amgueddfa'n blaenoriaethu arddangosfeydd yn ei safleoedd ei hun a chyda phartnerïaid, cyn llunio rhaglen o arddangosfeydd teithiol rhyngwladol.</p> <p>4.5 Croesawyd lefel strategol a fformat y papur. Roedd y Bwrdd yn canmol yr Amgueddfa am gryfder y rhaglen arddangosfeydd ac arddangos bresennol dan yr adnoddau cyfredol, a nodwyd sut yr oedd y sefydliad wedi coleddu'r strategaeth.</p> <p>4.6 <u>Penderfynwyd</u>: Yn unol â hynny a chymeradwyo'r strategaeth.</p>	
<p><i>Ymunodd Sian Cook â'r cyfarfod ar yr adeg hon.</i></p> <p>5 STRATEGAETH DDATBLYGU 2013/14-2015/16</p> <p>5.2 <u>Derbyniwyd</u>: Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Datblygu.</p> <p>5.3 <u>Adroddwyd</u>: Bod y Cyfarwyddwr Datblygu wedi adrodd ar gyd-destun a chefnidir y strategaeth. Roedd y strategaeth yn nodi blaenoriaethau, cyfleoedd a thargedau codi arian yr Amgueddfa ac ar gyfer y presennol a'r dyfodol. Roedd y dull presennol o godi arian wedi'i gofnodi, yn ogystal â rhaglen ar gyfer ei hadolygu.</p> <p>5.4 Trafododd yr aelodau y ffordd yr oedd yr Amgueddfa wedi cael gafael ar gyllid Ewropeaidd a'i dulliau o ddatblygu nawdd corfforaethol. Nodwyd rôl y cyfryngau cymdeithasol a bwrw'r rhwyd i gynulleidfa eang a'u cysylltiadau â'r gwaith o ddatblygu strategaethau digidol a strategaethau eraill. Roedd apêl gyhoeddus ar gyfer Sain Ffagan yn cael ei datblygu a'i hamserlennu er mwyn cyd-fynd ag adolygiadau eraill ar gyfer codi arian.</p> <p>5.5 Nododd Cadeirydd y Bwrdd Datblygu y cynnydd rhagorol a wnaed yn ystod y deuddeg mis diwethaf, a phwysigrwyd cyfathrebu'r rôl codi arian ar draws y sefydliad. Nododd y Llywydd rôl hanfodol y gwaith o gynnal a datblygu cysylltiadau â rhoddwyr allanol. Nododd yr aelodau yr uchelgeisiau ar gyfer yr adran a nodwyd y cyfleoedd ar gyfer meincnodi gyda'r Alban ac yn rhanbarthau Cymru. Cafodd rôl hollbwysig y Bwrdd Datblygu ei chydnabod, yn ogystal â rôl yr holl Ymddiriedolwyr wrth gefnogi staff.</p> <p>5.6 <u>Penderfynwyd</u>: Yn unol â hynny a chymeradwyo'r strategaeth. Bydd Mentrau Amgueddfeydd ac Orielaau Cymru Cyf. yn cadarnhau canlyniad yr adolygiad i'r syniad o'r Amgueddfa yn gwerthu cardiau crafu yn ei safleoedd. Mae angen i'r adran gymryd camau dilynol ynglŷn â thrafodaethau blaenorol ag Ymddiriedolwyr unigol.</p> <p><i>Gadawodd Sian Cook a Janice Lane y cyfarfod ar yr adeg hon.</i></p>	<p>GW / Cyfarwyddwr Datblygu</p>
<p><i>Ymunodd June François â'r cyfarfod ar yr adeg hon.</i></p> <p>6 CYNLLUN GWEITHREDU AR GYFER ASTUDIAETH O BROFFIL</p>	

Nodiadau	Gweithredu
<p>YMWELWYR</p> <p>6.1.1 <u>Derbyniwyd</u>: Adroddiad gan y Pennaeth Marchnata.</p> <p>6.1.2 <u>Adroddwyd</u>: Bod y cynllun yn amlinellu ymateb yr Amgueddfa i ganlyniadau gwaith ymchwil y Grŵp BDRS, a adroddwyd i'r Bwrdd ym mis Tachwedd 2013. Roedd y Cynlluniau Gweithredu ar gyfer Datblygu Cynulleidfaedd yn rhoi ffocws ar gyfer cynlluniau pob safle hefyd, ac ar gyfer pob cynulleidfa flaenoriaeth i'w thargedu. Roedd y cynlluniau'n ymateb i'r strategaethau marchnata a rhyngwladol corfforaethol troswaol. Nododd yr ymddiriedolwyr fod Mentrau Amgueddfeydd ac Orielau Cymru Cyf. wedi creu ei gynlluniau ei hun o ganlyniad i waith ymchwil i ymwelwyr. Roedd yr Amgueddfa yn parhau i gydweithio â Croeso Cymru ac ymgysylltu â nhw wrth ddatblygu ei chynulleidfa ac wrth farchnata.</p> <p>6.1.3 Nododd yr aelodau eu profiad uniongyrchol o'r graddau y mae adroddiadau'n cael eu defnyddio gan staff, fel rhan o'u hymweliad ymgyfarwyddo diweddar â Big Pit. Nododd yr ymddiriedolwyr uchelgais yr Amgueddfa i gynrychioli cyfansoddiad demograffig poblogaeth Cymru ar draws ei safleoedd.</p> <p>6.1.4 <u>Penderfynwyd</u>: Yn unol â hynny, a nodi'r adroddiad.</p> <p><i>Gadawodd June François y cyfarfod ar yr adeg hon.</i></p>	
<p>7 ADRODDIAD Y CYFARWYDDWR CYFFREDINOL, BRIFF CHWARTEROL Y TRYDYDD CHWARTER, MATERION CYFREDOL</p> <p>7.1 <u>Derbyniwyd</u>: Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Cyffredinol.</p> <p>7.2 <u>Adroddwyd</u>: bod y gwaith o ailystyried y weledigaeth wedi cychwyn. Roedd y Swyddogion wedi cyfarfod â chynghorydd yr Amgueddfa ar y broses a'u bod yn nodi cyfleoedd er mwyn sicrhau bod y Bwrdd cyfan yn ymgysylltu â'r broses. Y nod oedd gwireddu'r weledigaeth erbyn diwedd 2014.</p> <p>7.3 Yn eu cyfarfod diweddar â'r Gweinidog, trafododd y Llywydd a'r Cyfarwyddwr Cyffredinol y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cynllunio'r Gyllideb, staffio a chyllid • Sain Ffagan Amgueddfa Werin Cymru. • Trechu Tlodi, nodi lansiad adroddiad y Farwnes Kay Andrews heddiw yn Amgueddfa Genedlaethol y Glannau • Ailgadarnhau mai'r Amgueddfa yw'r darparwr addysg y tu allan i'r ystafell ddosbarth mwyaf yng Nghymru • Lansio adroddiad ymchwil yr Amgueddfa sef Cyfranogiad Diwylliannol ar gyfer Plant a Phobl Ifanc sy'n Byw Mewn Tlodi a phhecyn cymorth ar gyfer sefydliadau diwylliannol ar drechu tlodi a 	

Nodiadau	Gweithredu
<p>gynlluniwyd ar gyfer 2 Ebrill</p> <ul style="list-style-type: none"> • Penodi ymddiriedolwyr • Y wybodaeth ddiweddaraf am bartneriaethau, gan ddefnyddio map i ddangos cwmpas daearyddol y gweithgarwch • Darpariaeth ddigidol a rôl y BBC • Cynhadledd Cymdeithas yr Amgueddfeydd yng Nghaerdydd ym mis Hydref 2014. <p>7.4 Adroddodd y Cyfarwyddwr Cyffredinol ar benderfyniad y Gweinidog i gynnal statws Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru fel corff ar wahân. Mae ei gysylltiad â Chasgliad y Werin Cymru yn parhau'n ddigynfnewid.</p> <p>7.5 Aeth y Pennaeth Polisi a Chynllunio ati i grynhoi sefyllfa'r trydydd chwarter, gan nodi bod y Pwyllgor Adolygu Perfformiad wedi adolygu'r manylion yn ymwneud â'r amcanion a'r cerrig milltir. Adroddodd y Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau Corfforaethol ar drafodaethau'r Amgueddfa â Llywodraeth Cymru mewn perthynas â'r hyn y gellir ei ddwyn ymlaen. Roedd y Llywydd a Chyfarwyddwr CyMAL yn gwerthfawrogi'r gydgefnogaeth a oedd yn bodoli rhwng yr Amgueddfa a CyMAL wrth drafod yn ehangach â'r Gweinidog a Llywodraeth Cymru.</p> <p>7.6 Nododd y Cyfarwyddwr Cyffredinol y byddai cynrychiolydd o Sgiliau Creadigol a Diwylliannol yn ymweld â'r Amgueddfa yr wythnos nesaf i drafod sut y gallai Sain Ffagan Amgueddfa Werin Cymru fod yn ganolbwynt y DU ar gyfer hyfforddiant sgiliau traddodiadol. Nodwyd rôl Croeso Cymru yn cefnogi gwaith yr Amgueddfa, a'n rôl ni yn datblygu twristiaeth.</p> <p>7.7 Diolchodd y Llywydd i'r staff a'r unigolion yn Amgueddfa Wlân Cymru am eu cefnogaeth yn dilyn marwolaeth Keith Rees, uwch grefftwr yn yr amgueddfa am dros ddeg mlynedd ar hugain. Diolchodd y Cyfarwyddwr Cyffredinol i'r Dirprwy Gyfarwyddwr Cyffredinol/Cyfarwyddwr Gweithredu a Phennaeth Gwasanaethau Ymwelwyr Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd, am y cymorth proffesiynol, ymarferol ac uniongyrchol a ddarparwyd i staff yr amgueddfa. Roedd yn golled i'r sefydliad cyfan, a daeth teulu Amgueddfa Cymru ynghyd i gefnogi ei gilydd.</p> <p>7.8 <u>Penderfynwyd</u>: Yn unol â hynny, a nodi'r adroddiad.</p>	
<p>8 MATERION CASGLIADAU</p> <p>8.1 Adroddiad ar Weithgaredd Casgliadau ac Ymchwil Hydref 2013 – Chwefror 2014</p> <p>8.1.1 <u>Derbyniwyd</u>: Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Casgliadau ac Ymchwil.</p> <p>8.1.2 <u>Adroddwyd</u>: Bod y Cyfarwyddwr Casgliadau ac Ymchwil wedi diolch i'r Ymddiriedolwyr a'r staff am ei groesawu i'r Amgueddfa, ac am stiwardiaeth y Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau Corfforaethol wrth iddo</p>	

Nodiadau	Gweithredu
<p>weithredu fel Cyfarwyddwr Casgliadau ac Ymchwil cyn ei benodiad. Strategaethau'r adran fyddai blaenoriaeth y Cyfarwyddwr newydd, gan ddefnyddio'r fethodoleg gynhwysol a'r dull strategol a fabwysiadwyd gan y Cyfarwyddwr Addysg, Arddangosfeydd a Chyfryngau Digidol yn ei hadroddiad cynharach. Roedd fformat yr adroddiad chwarterol yr un fath ag adroddiadau blaenorol mwy neu lai, ar wahân i aildrefnu'r cynnwys dan is-benawdau. Byddai fformat adroddiadau'r dyfodol yn canolbwyntio ar ganlyniadau, ac yn cael eu llywio gan strategaethau newydd ac ymatebion yr Ymddiriedolwyr yn ystod y cyfarfod.</p> <p>8.1.3 Cyhoeddwyd y seminar Casgliadau ac Ymchwil gyntaf ar gyfer 24 Medi 2014. Gwahoddwyd Ymddiriedolwyr a staff. Bydd y seminar yn cynnwys cyflwyniadau ar weithgarwch ymchwil, gan gynnwys gwaith ymchwil i gynulleidfaoedd, ac amlinelliad o strategaeth y dyfodol ar gyfer casgliadau ac ymchwil.</p> <p>8.1.4 Cadarnhaodd Cyfarwyddwr CyMAL ei chynnig o gymorth i ddatblygu cyfleoedd i drafod â'r Prif Swyddog Gwyddonol.</p> <p>8.1.5 <u>Penderfynwyd</u>: Yn unol â hynny, ac y byddai angen cadarnhau a oes gan yr Amgueddfa gynllun yswiriant indemniad wrth ddarparu cyngor y codir tâl amdano.</p> <p>8.2 Cymrodor Ymchwil Anrhydeddus a Cheidwad Emeritws</p> <p>8.2.1 <u>Derbyniwyd</u>: Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Casgliadau ac Ymchwil.</p> <p>8.2.2 <u>Adroddwyd</u>: Y gofynnwyd i Aelodau gymeradwyo penodi un Cymrodor Ymchwil Anrhydeddus ac ailbenodi Ceidwad Emeritws.</p> <p>8.2.3 <u>Penderfynwyd</u>: Yn unol â hynny ac y byddai Dr Jonathan Gray yn cael ei benodi'n Gymrodor Ymchwil Anrhydeddus ac y byddai Dr Eurwyn Wiliam yn cael ei ailbenodi'n Geidwad Emeritws. Bydd y ddwy swydd yn para blwyddyn.</p>	<p>Cyfarwyddwr Casgliadau ac Ymchwil</p>
<p>9 MATERION Y PWYLLGOR</p> <p><u>Derbyniwyd a Nodwyd</u>: Cofnodion drafft:</p> <ul style="list-style-type: none"> i. Ymddiriedolwyr Pensiwn 26 Tachwedd 2013 a 12 Chwefror 2014 ii. Grŵp Comisiynu Projectau Amgueddfa Gwyddorau Naturiol 16 Ionawr iii. Mentrau Amgueddfeydd ac Oriolau Cymru Cyf. 30 Ionawr 2014 iv. Pwyllgor Archwilio 11 Chwefror 2014 v. Pwyllgor Adolygu Perfformiad 13 Chwefror 2014 <p>9.1 <u>Adroddwyd</u>: Bod Cadeirydd yr Ymddiriedolwyr Pensiwn (Is-lywydd yr Amgueddfa), wedi nodi, mewn perthynas â chofnodion 26 Tachwedd, bod</p>	

Nodiadau	Gweithredu
<p>y pwyslais ar lywodraethu ac asesu'r cwmnïau sy'n gweithio i'r Cynllun. Dyma fyddai cyfarfod olaf yr Is-lywydd fel Cadeirydd, a diolchodd i Robert Pickard, Aelod o Fwrdd yr Amgueddfa, am gytuno i gael ei benodi yn Gadeirydd newydd Ymddiriedolwyr y Cynllun Pensiwn. Cofnododd y Llywydd ei gwerthfawrogiad a diolchodd am ei gyfraniad a'i waith yn cryfhau proses lywodraethu'r cyfarfodydd, yn dilyn cyfnod anodd i Ymddiriedolwyr yr Amgueddfa a'r Cynllun, nad nhw oedd yn gyfrifol amdano. Diolchodd y Llywydd i Robert Pickard ymhellach am ymgymryd â rôl y Cadeirydd.</p> <p>9.2 Diolchodd Robert Pickard i'r Llywydd a'r Is-lywydd, ac adroddodd y byddai'r lywodraeth yn aildrefnu'r cynllun pensiwn, gan roi terfyn ar contractio allan o'r cynllun. Roedd yr ymrwymiad ychwanegol a oedd yn ofynnol gan gyflogwyr yn golygu ei bod yn adeg briodol i Amgueddfa Cymru adolygu'r cynllun yn ei gyfanrwydd. Roedd gwasanaethau gweinyddu, actiwaraid a buddsoddi'r cynllun yn cael eu cynnig ar dendr, ac roedd y cyfweiliadau'n cael eu trefnu ar gyfer mis Mai 2014. Nod y broses yw sicrhau bod y ffioedd terfynol yn cyd-fynd â sefyllfa gyfredol y farchnad. Nododd y Llywydd mai cyfrifoldeb yr Amgueddfa oedd cynnal yr adolygiad.</p> <p>9.3 Mewn perthynas â Chofnodion Grŵp Comisiynu Projectau'r Amgueddfa Gwyddorau Naturiol, nododd yr aelodau fod statws grant IRO'r Amgueddfa wedi'i gymeradwyo.</p> <p>9.4 Mewn perthynas â Chofnodion y Pwyllgor Adolygu Perfformiad, diolchodd y Trysorydd i'r Is-lywydd am gadeirio'r cyfarfod yn ei absenoldeb. Cyflwynwyd amrywiaeth o strategaethau i'r cyfarfod, a diolchwyd i'r Cyfarwyddwr Cyffredinol am ei arweinyddiaeth.</p>	
<p>10 MATERION SY'N GYSYLLTIEDIG AG EIDDO</p> <p>10.1 <u>Derbyniwyd</u>: Adroddiad gan y Dirprwy Gyfarwyddwr Cyffredinol/Cyfarwyddwr Gweithredu.</p> <p>10.2 <u>Adroddwyd</u>: Bod yr Aelodau wedi cael yr wybodaeth ddiweddaraf am faterion ôl-weithredol yn ymwneud ag eiddo mewn perthynas â dau les a thrwydded tir yn Sain Ffagan.</p> <p>10.3 <u>Penderfynwyd</u>: Yn unol â hynny, a bod y ddau les a'r drwydded wedi'u nodi.</p>	
<p>11 SAIN FFAGAN AMGUEDDFA WERIN CYMRU – ADRODDIAD CYNNYDD</p> <p>11.1 <u>Derbyniwyd</u>: Adroddiad gan y Dirprwy Gyfarwyddwr Cyffredinol/Cyfarwyddwr Gweithredu.</p>	

Nodiadau	Gweithredu
<p>11.2 <u>Adroddwyd</u>: Bod yr aelodau wedi nodi bod Grŵp Comisiynu Project Sain Ffagan i gyfarfod yn ystod y prynhawn hwnnw. Newidiwyd y dyddiad er mwyn sicrhau y gallai tîm Event roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd yn amserol. Nododd yr aelodau fod y contractwyr a wahoddwyd i dendro wedi'u cadarnhau a bod pum cwmni wedi mynegi diddordeb. Roedd yr amserlenni yn parhau i gael eu hadolygu. Cyflwynwyd y wybodaeth ddiweddaraf am faterion cynllunio i Gyngor Caerdydd. Ystyriodd yr aelodau'r cyfathrebu a fu gyda'r Cyngor ar lefel uwch a nodwyd eu bod mor briodol ac effeithiol â phosibl. Byddai cyfarfod y prynhawn yn cynnwys y wybodaeth ddiweddaraf am gynigion arddangosfeydd ac roedd yr amgueddfa'n hapus â dull tîm Event o weithio.</p> <p>11.3 <u>Penderfynwyd</u>: Yn unol â hynny a bod yr adroddiad wedi'i nodi.</p>	
<p>12 UNRHYW FATER ARALL</p> <p>12.1 Holiaduron hunanwerthuso</p> <p>12.1.1 Adroddodd Ysgrifennydd yr Amgueddfa fod yr holiadur blynyddol ar gyfer Aelodau'r Bwrdd, y Pwyllgor Adolygu Perfformiad a'r Pwyllgor Archwilio ar gael i'w gwblhau ar-lein. Byddai'r canfyddiadau'n cael eu crynhoi yn yr Adroddiad Ariannol Blynyddol, ac yn cael eu hadrodd ym mhob un o'r cyfarfodydd nesaf.</p> <p>12.1.2 <u>Penderfynwyd</u>: Yn unol â hynny ac y byddai'r manylion yn cael eu dosbarthu maes o law.</p> <p>12.2 Ffurf cyfarfodydd</p> <p>12.2.1 Roedd y Llywydd yn ymwybodol bod hyd ac agenda cyfarfodydd y Bwrdd yn achosi mwy a mwy o bwysau. Cafwyd awgrymiadau am amseru a hyd y cyfarfodydd y Bwrdd. Byddai dewisiadau yn cynnwys rhoi cyfleoedd rheolaidd i staff i gyflwyno i'r Bwrdd, gyda'r nod o sicrhau ei fod yn fanteisiol i'r Ymddiriedolwyr a'r staff. Nodwyd y byddai'r cyfarfod nesaf yn cynnwys trafodaeth ar strategaeth ddigidol yr Amgueddfa.</p> <p>12.2.2 <u>Penderfynwyd</u>: Yn unol â hynny, ac y byddai'r cynigion am amseru a hyd cyfarfodydd y Bwrdd yn cael eu cyflwyno yng nghyfarfod nesaf y Bwrdd ym mis Mehefin.</p> <p>12.3 19 Mehefin 2014 Bwrdd yr Ymddiriedolwyr</p> <p>12.3.1 Hysbysodd Ysgrifennydd yr Amgueddfa yr Aelodau o'r amserlen fras ar gyfer cyfarfod nesaf y Bwrdd, a gynhelir yn Nhyddewi, gydag ymweliad ag Amgueddfa Wlân Cymru i'r holl Ymddiriedolwyr y diwrnod blaenorol.</p> <p>12.3.2 <u>Penderfynwyd</u>: Yn unol â hynny, ac y byddai rhagor o fanylion yn cael</p>	<p>Ysgrifennydd yr Amgueddfa</p> <p>Uwch Dîm Rheoli</p> <p>Ysgrifennydd yr Amgueddfa</p>

Nodiadau	Gweithredu
<p>eu dosbarthu maes o law.</p> <p>12.4 Ymddeoliad Gareth Williams, un o'r Ymddiriedolwyr</p> <p>12.4.1 <u>Adroddwyd</u>: Bod y Llywydd wedi cofnodi mai hwn oedd cyfarfod Bwrdd olaf yr Ymddiriedolwr Gareth Williams. Diolchwyd i Gareth yn gynnes am ei gyfraniad sylweddol i waith yr Amgueddfa, ac yn enwedig am ei rôl fel Cadeirydd Mentrau Amgueddfeydd ac Oriolau Cymru Cyf. Mewn ymateb, diolchodd Gareth i'r Amgueddfa gan ddweud ei bod wedi bod yn anrhydedd bod yn Ymddiriedolwr. Byddai ei waith yn hybu Amgueddfa Cymru yn parhau.</p> <p>12.4.2 <u>Penderfynwyd</u>: Yn unol â hynny, ac y byddai'r holl Ymddiriedolwyr yn cael gwahoddiad i ymuno ag Aelodau'r Pwyllgor Adolygu Perfformiad ar 22 Mai ar gyfer cinio ymddeoliad Gareth.</p>	
<p>13 AGENDA'R BWRDD STRATEGOL</p> <p>13.1 Nododd yr aelodau yr eitemau i'w trafod yng nghyfarfod y Bwrdd ar 19 Mehefin 2014.</p>	
<p>DYDDIAD AC AMSER Y CYFARFOD NESAF:</p> <p><u>Penderfynwyd</u>: Y byddai cyfarfod nesaf Bwrdd yr Ymddiriedolwyr am 9am ar 19 Mehefin 2014 yn yr Ystafell Ddarganfod, Oriel y Parc, Tyddewi.</p>	